

LLEFARU

Beirniaid

Esyllt Tudur Adair, Ian Lloyd Hughes, Nest Jenkins, ac Osian Maelgwyn Jones

Amodau arbennig

- Lle bo'r darn prawf wedi ei ysgrifennu mewn tafodiaith gref, caniateir rhai mân newidiadau i ynganiad y geiriau sy'n naturiol i dafodiaith y cystadleuydd. Dylid, fodd bynnag, sicrhau bod yr addasiad yn gynnil ac angenrheidiol. Ni ddylai unrhyw addasiadau, er mwyn bod yn drîw i waith y llenor/bardd, effeithio ar fydr ac odl cerdd na newid ystyr y darn prawf mewn unrhyw fodd. Lle bo'r darn mewn cynganedd, ni chaniateir unrhyw newidiadau.
- Caniateir propiau a dodrefn syml. Y cystadleuwyr eu hunain ddylai osod a chlirio'r llwyfan oni bai am achosion eithriadol a fyddai'n caniatáu i'r rheolwyr llwyfan swyddogol wneud hynny. Rhaid paratoi a chlirio'r llwyfan o fewn yr amser penodedig.

DS Dylech sicrhau eich bod wedi darllen y Rheolau ac Amodau Cyffredinol cyn cystadlu

Côr llefaru 601

dros 16 mewn nifer

Detholiad heb fod yn hwy na 6 munud o *Wythnos yng Nghymru Fydd* (argraffiad 2022), Islwyn Ffowc Elis [Y Lolfa]

Gwobrau:

- Cwpan Rhys Bowen i'w ddal am flwyddyn a £600
- £400
- £200

Parti llefaru 602

hyd at 16 mewn nifer

'Seidr Ddoe', Myrddin ap Dafydd
Cewch gyflwyno'r gytgan hyd at ddwywaith yn unig – fel pennill cyfan, neu wedi'i rannu a'i blethu gyda'r penillion eraill

Gwobrau:

- Cwpan Lleisiau Llifon i'w ddal am flwyddyn a £400
- £200
- £100

Cysylltwch â cystadlu@eisteddfod.cymru am gopi o'r gerdd

Gair ar gerdd 603

Cyflwyno cerdd(i) a/neu ryddiaith i gyfeiliant rhwng 2 ac 8 mewn nifer

Caniateir 4 munud ar gyfer y perfformiad cyfan, gan gynnwys, pe dymunir, ychydig o lefaru wedi i'r trac sain ddod i ben. Ni ddylai'r llefaru gychwyn cyn i'r trac sain ddechrau. Darperir trac sain y cyfeiliant ymlaen llaw, ac ni chaniateir ei olygu na'i newid mewn unrhyw ffordd

Gwobrau:

- £200
- £150
- £100

Bydd modd gwrando ar drac sain y cyfeiliant a'i lawrlwytho o wefan yr Eisteddfod

Gwobr Goffa Llwyd o'r Bryn 604

Llefaru unigol 21 oed a throsodd

'Distawrwydd', Ann Fychan, *Beirdd Bro Eisteddfod Maldwyn*, gol. Arwyn Groe [Cyhoeddiadau Barddas], ynghyd â darn(au) hunanddewisiad
Ni ddylai'r perfformiad cyfan fod yn hwy nag 8 munud

Gwobrau:

- Medal Goffa Llwyd o'r Bryn a £300
- £200
- £100

Gellir cyflwyno'r darn gosod ar ddechrau neu ar ddiwedd y perfformiad, neu ei blethu gyda'r darn(au) hunanddewisiad

Gwobr Goffa Gwyneth Morus Jones 605

Llefaru unigol 16 ac o dan 21 oed

Detholiad penodol o 'Porth', Gruffudd Owen

Gwobrau:

- Medal Goffa Gwyneth Morus Jones a £100
- £80
- £60

Cysylltwch â cystadlu@eisteddfod.cymru am gopi o'r detholiad

Llefaru unigol 12 ac o dan 16 oed 606

'Gerallt', Manon Steffan Ros, *Golygon* [Y Lolfa]

Gwobrau:

- £80
- £60
- £40

Ni ddylech lefaru'r dyddiad na'r is-deit!

Llefaru unigol o dan 12 oed 607

Detholiad penodol o 'Pam?', Luned Aaron

Gwobrau:

- £60
- £40
- £20

Cysylltwch â cystadlu@eisteddfod.cymru am gopi o'r detholiad penodol

Llefaru o'r Ysgrythur 608

Agored

Hunanddewisiad hyd at 3 munud

Gwobrau:

- £150
- £120
- £90

Y cyfarwydd 609

19 oed a throsodd

Llefaru darn(au) hunanddewisiad o waith/weithiau un o'r canlynol: Marion Eames, Gwenallt neu TH Parry-Williams
Ni ddylai'r perfformiad cyfan fod yn hwy na 5 munud

Gwobrau:

- £150
- £120
- £90

LLENYDDIAETH

Amodau arbennig

- Rhaid cofrestru a chyflwyno holl gyfansoddiadau'r adran yn ddigidol drwy wefan yr Eisteddfod, gan uwchlwytho gwaith wrth gwblhau'r broses erbyn dyddiad cau y gystadleuaeth.
- Dyddiad cau: 1 Ebrill am hanner dydd (oni nodir yn wahanol).
- Ni chaniateir anfon yr un gwaith yn ei hanfod i fwy nag un gystadleuaeth.
- Ymrwymadau: Os oes gan gystadleuydd ymrwymiad fel awdur gyda chyhoeddwr arbennig, rhaid iddynt roi enw'r cyhoeddwr, ynghyd â'u henw a manylion cyswllt wrth gofrestru.

DS Dylech sicrhau eich bod wedi darllen y Rheolau ac Amodau Cyffredinol cyn cystadlu

BARDDONIAETH

Awdl neu gasgliad o gerddi 701

Cystadleuaeth y Gadair

Awdl neu gasgliad o gerddi mewn cynganedd gyflawn, ar fwy nag un o'r mesurau traddodiadol, hyd at 250 o linellau
Testun: **Perthyn**

Beirniaid: Twm Morys, Mari George a Tegwyn Pughe Jones

Gwobr: Cadair yr Eisteddfod a £750

Pryddest neu gasgliad o gerddi 702

Cystadleuaeth y Goron

Cerdd neu gasgliad o gerddi hyd at 250 o linellau
Testun: **Yfory**

Beirniaid: Cyril Jones, *Esyllt Maelor* a Gwion Hallam

Gwobr: Coron yr Eisteddfod a £750

Cystadleuaeth ar gyfer cerdd neu gerddi ar y mesurau rhydd neu benrhydd yw cystadleuaeth y Goron ac ni chaniateir cerddi ar y mesurau caeth traddodiadol. Ni chaniateir ond defnydd achlysurol iawn o'r gynghanedd yn y gystadleuaeth

Englyn unodl union 704

Testun: **Ffrwd**

Beirniad: Gruffudd Antur

Gwobr: Tlws coffa Dic yr Hendre i'w ddal am flwyddyn a £200

Caniateir cyflwyno hyd at 5 englyn fel rhan o'r un cais

Cerdd gaeth 706

heb fod dros 30 o linellau

Testun: **Delwedd**

Beirniad: Nia Powell

Gwobr: £200

Cerdd ysgafn 707

ar unrhyw fesur

Testun: **Beth allai fynd o'i le?**

Beirniad: Mair Tomos Ifans

Gwobr: £200

Telyneg 708

heb fod dros 20 o linellau

Testun: **Cloc**

Beirniad: Meleri Davies

Gwobr: £200

Soned 709

Testun: **Dyffryn**

Beirniad: Beryl H Griffiths

Gwobr: £200

Triban neu bennill telyn 710

Casgliad o bump Triban neu bump pennill telyn

Testun: **Dawns**

Beirniad: Arwyn Groe

Gwobr: £200

Cân plygain 711

mewn arddull draddodiadol neu gyfoes

Cyfansoddi geiriau ar unrhyw alaw plygain sy'n bodoli'n bardod

Beirniad: Alun 'Cefne' Jones

Gwobr: £200

RHYDDIAITH

Gwobr Goffa Daniel Owen 2027 712

Nofel heb fod yn llai na 40,000 o eiriau

Beirniad: Caryl Lewis, Jon Gower a Sioned Wyn Roberts

Gwobr: Medal Goffa Daniel Owen a £5000

Dyddiad cau: **1 Hydref 2026**

Gwobr Goffa Daniel Owen 2028

Nofel heb fod yn llai na 40,000 o eiriau

Gwobr: Medal Goffa Daniel Owen a £5000

Dyddiad cau: **1 Hydref 2027**

Y Fedal Ryddiaith 2027 713

Cyrol o ryddiaith greadigol heb fod dros 40,000 o eiriau

Testun: **Arbrawf**

Beirniad: Eurig Salisbury, Megan Angharad Hunter a Lleucu Roberts

Gwobr: Y Fedal Ryddiaith a £750

Dyddiad cau: **1 Hydref 2026**

Dyddiad cau newydd

Y Fedal Ryddiaith 2028

Cyrol o ryddiaith greadigol

Testun: **Dadeni**

Gwobr: Y Fedal Ryddiaith a £750

Dyddiad cau: **1 Hydref 2027**

Gwobr stori fer Tony Bianchi 714

Hyd at 3,000 o eiriau

Testun: **Cyfle**

Beirniad: Simon Chandler

Gwobr: Gwobr Tony Bianchi a £200

Ymson ysgafn 715

Hyd at 1,500 o eiriau

Testun: **Mewn caffi**

Beirniad: Sioned Wiliam

Gwobr: £200

Portread 716

o gymeriad lleol hyd at 1,500 o eiriau

Beirniad: Dafydd Morgan Lewis

Gwobr: £200

Dechrau nofel arswyd 717

Cyflwyno pennod gyntaf hyd at 5,000 o eiriau

Beirniad: Rolant Tomos

Gwobr: £200

Gwobr ysgrif J Elwyn Hughes 718

Hyd at 1,500 o eiriau

Testun: **Dŵr**

Beirniad: Mike Parker

Gwobr: Tlws J Elwyn Hughes yn rhoddedig gan y teulu a £200

Adolygiad 721

Adolygiad o ddigwyddiad neu brofiad byw, neu ddarllediad neu gyhoeddiad Cymraeg (rhwng Ebrill 2026 ac Ebrill 2027), hyd at 1,500 o eiriau

Beirniad: Siân Thomas

Gwobr: £200

Cystadleuaeth y Wladfa 722

i rai sydd wedi byw yn y Wladfa ar hyd eu hoes ac sy'n dal i fyw yn yr Ariannin

Cyflwyniad ar ffurf ysgrif (i gynnwys delweddau os yn berthnasol) hyd at 1,500 o eiriau neu recordiad llais a/ neu llun hyd at 4 munud o hyd
Testun: **Ein dyfodol...**

Beirniad: Lois Medi Williams

Gwobr: Gwobr Goffa Shan Emlyn gan ei merched Elin Edwards a Mari Emlyn a £200

Cystadleuaeth Undeb Cymru a'r Byd 723

i rai sydd yn byw, neu wedi byw y tu allan i'r Deyrnas Unedig am o leiaf dwy flynedd

Cyflwyniad ar ffurf ysgrif (i gynnwys delweddau os yn berthnasol) hyd at 1,500 o eiriau
Testun: **Mae'n werth troi'n alltud...**

Beirniad: Bethan Kilfoy

Gwobr: £200

AGORED

Ysgoloriaeth fentora Emyr Feddyg 703

er cof am Dr Emyr Wyn Jones, Cymrawd yr Eisteddfod

Sefydlwyd yr ysgoloriaeth flynyddol hon i gynnig hyfforddiant i lenor neu fardd na chyhoeddwyd cyfrol o waith ganddynt eisoes. Gofynnir i'r cystadleuwyr uwchlwytho gwaith mewn unrhyw ffurf neu arddull – boed yn farddoniaeth neu'n rhyddiaith (neu'n gyfuniad o farddoniaeth a rhyddiaith) – heb i'r cyfan fod yn hwy na 3,000 o eiriau. Rhaid i bob cyfansoddiad fod yn gynnryrch gwreiddiol gan yr awdur a heb ei gyhoeddi

Bydd yr enillydd yn cael prentisiaeth yng nghwmni mentor profiadol a ddewisir ar y cyd gan yr enillydd a'r Eisteddfod. Mae cyfanswm o £1000 ar gael ar gyfer y mentora; yn ogystal â thâl i'r mentor, gellir cyfrannu tuag at gostau teithio ac unrhyw gostau eraill perthnasol i'r hyfforddiant o'r swm hwn. Ni all unrhyw un dderbyn yr ysgoloriaeth fwy nag unwaith

Beirniad: Nia Huw Roberts

Gwobr: £200

Tlws yr ifanc o dan 25 oed 720

Cystadleuaeth Cymdeithas Eisteddfodau Cymru

Darn o farddoniaeth neu ryddiaith ar unrhyw ffurf, hyd at 2,000 o eiriau. Caiff Eisteddfod sydd yn aelod o'r Gymdeithas anfon hyd at 3 darn o waith o blith cyfansoddiadau llenyddol o dan 25 oed yr Eisteddfod (rhaid cynnwys yr enillydd), at sylw swyddog gweinyddol y Gymdeithas ar gyfer y gystadleuaeth hon

Beirniad: Rhys Iorwerth

Gwobr: £200

Dyfernir y Tlws am waith gan ymgeiswyr o dan 25 oed a feirnedir yn un o eisteddfodau lleol Cymru rhwng 1 Ebrill 2026 a 30 Ebrill 2027

Casgliad o lèn micro 724

Y casgliad i fod hyd at 1,000 o eiriau

Testun: **Sbardun**

Beirniad: Rhiannon Marks

Gwobr: £200